ADRODDIAD I'R:	Pwyllgor Trwyddedu
DYDDIAD:	7 Rhagfyr, 2022
SWYDDOG ARWEINIOL:	Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad
SWYDDOG CYSWLLT:	Yr Uwch Swyddog Trwyddedu trwyddedu@sirddinbych.gov.uk 01824 706433
PWNC:	Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol 2023

1. DIBEN YR ADRODDIAD

1.2 Rhoi gwybod i'r Aelodau am flaenoriaethau'r Adain Drwyddedu, ynghyd â diweddariad ar y rhaglen waith y cytunwyd arni ar gyfer y Pwyllgor Trwyddedu 2023.

2. CRYNODEB GWEITHREDOL

2.1 Mae blaenoriaethau'r Adain Drwyddedu yn adlewyrchu'r ddyletswydd a roddir ar yr Awdurdod mewn perthynas â'i gyfrifoldebau o ran ei swyddogaeth drwyddedu, a rheoleiddio, rheoli a gorfodi Trwyddedai yn effeithiol, yn ogystal ag ymrwymiad yr Awdurdod i greu cymunedau mwy diogel a datblygu'r economi.

2.2 Oherwydd blaenoriaethau na ragwelwyd, yn anffodus bu'n rhaid diwygio ychydig ar y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol a gymeradwywyd gan Aelodau mewn cyfarfod blaenorol ac mae materion wedi'u haildrefnu i'w hystyried.

3. GWYBODAETH GEFNDIR

3.1 Bydd Aelodau'n cofio yn y cyfarfod diwethaf ym Medi 2022, cyflwynodd Swyddogion rhaglen waith ddiwygiedig a gafodd ei gymeradwyo, fodd bynnag yn sgil cynigion Llywodraeth Cymru i ymgynghori ar y ddeddfwriaeth tacsi newydd yn Ionawr 2023, mae'r adroddiad sydd wedi'i drefnu ar yr adolygiad o Ddatganiad Polisi presennol Cerbydau Hacni a Hurio Preifat, wedi cael ei oedi tan y flwyddyn nesaf pan fydd canlyniad yr ymgynghoriad LlC wedi ei gyhoeddi. Gweler Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol diwygiedig yn Atodiad A.

4. **ARGYMHELLIAD**

4.1 Argymhellir fod yr Aelodau'n nodi cynnwys yr adroddiad ac

4.2 Argymhellir ymhellach bod yr Aelodau'n ystyried ac yn cymeradwyo'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol ddiwygiedig y manylir arni yn Atodiad A ar gyfer 2023.